

Arfon Jones, DD

Dyfarnu gradd Doethur mewn Diwinyddiaeth
er anrhydedd i Arfon am ei waith gyda beibl.net


Llongyfarchiadau enfawr i Arfon Jones, DD, ar yr anrhydedd o dderbyn gradd Doethur mewn Diwinyddiaeth gan Brifysgol Bangor. Ymhlith y rhestr o bobl ar wefan Prifysgol Bangor sy'n derbyn graddau eleni, nodir fel a ganlyn:

Arfon Jones, graddedig o Fangor sy'n enwog am ei gyfraniad i ddiwylliant crefyddol Cymru ac am gynhyrchu testun academiaidd syml, dealladwy o'r Beibl Cymraeg sy'n cyd-fynd â diwylliant cyfoes.

Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog i Arfon, gan ddiolch am ei gyfraniad i fywyd Cristnogol ein cenedl.

Pan ddechreuodd Arfon drosi'r Ysgrhythur i Gymraeg a fyddai'n ddealladwy i ieuencid a dysgwyr yn nechrau nawdegau'r ugeinfed ganrif, fel 'aralleiriad' roedd yn bwriadu gwneud hynny. Ond wrth drafod y gwaith gyda'r United Bible Societies, ac esbonio mai trosi o'r ieithoedd gwreiddiol, Hebraeg a Groeg, a wnâi, yn unol â'r ddisgyblaeth academiaidd fanylaf, fe wnaethon nhw gadarnhau mai 'cyfieithiad' oedd beibl.net mewn gwirionedd, ac nid 'aralleiriad'. Wedi sicrhau eu cefnogaeth, cafodd ddefnydd o feddalwedd cyfieithu arbenigol ac ymuno â rhwydwaith rhyngwladol o ysgolheigion beiblaidd academiaidd a phroffesiynol oedd yn arbenigo ar gyfieithu'r Ysgrhythur i amrywiaeth o ieithoedd mewn idiom cyfoes. Y bwriad bob amser oedd cyhoeddi'r gwaith yn electronig, a dyna a wnaed, gyda 27 llyfr y Testament Newydd ar gael erbyn 2005 a gweddill y Beibl – 39 llyfr yr Hen Destament – yn barod erbyn 2013.

Pan ddaeth yn fater o gyhoeddi fersiwn copi caled, mynnodd Cymdeithas y Beibl gyhoeddi beibl.net ochr yn ochr â'r Beibl Cymraeg Newydd (BCN) a'r Beibl Cymraeg Newydd Argraffiad Diwygiedig (BCND) a'i hyrwyddo fel y fersiwn cydnabyddedig cyfoes ar gyfer yr oes ddigidol. Ers ei gyhoeddi yn 2015, mae bellach wedi mynd drwy bedwar argraffiad, gan werthu dros 15,000 o gopiau; yn ychwanegol at hynny, cyhoeddwyd fersiwn print bras yn ogystal â'r *Beibl Lliw*, sef y Beibl lliw cyntaf erioed



yn y Gymraeg. O ran y defnydd eang sy'n cael ei wneud o beibl.net mewn clawr caled ac ar y we, enillodd ei le fel y fersiwn mwyaf poblogaidd o'r Beibl cyfoes yn Gymraeg, tra mae'r *Beibl Lliw* wedi cael derbyniad arbennig hefyd. Er bod sawl Beibl lliw i blant, aralleiriadau syml o'r stori oeddent, ond dyma'r tro cyntaf i Feibl lliw gael ei gyhoeddi a oedd yn cynnwys y testun beiblaidd ei hun, heb fod yn aralleiriad.

A'r gwaith gyda throsi'r Beibl wedi'i gwblhau, mae Arfon wedi ymddiddori fwyfwy yn hanes y Beibl Cymraeg gan sicrhau bod fersiwn William Salesbury o'r Testament Newydd (1567) ynghyd â'r Salmau ar gael i'w lawrlwytho, ynghyd â chyfieithiadau eraill megis *Y Ffordd Newydd* (1971). Datblygodd hefyd Ap fel bod pob un o'r fersiynau hyn ar gael ar gyfer i-Pad a ffôn symudol.

Mae cyfraniad Arfon i fywyd ysbrydol y genedl yn fwy o lawer na'r uchod. Dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf mae wedi cyfieithu neu addasu dros dri chant o emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes, llawer ohonynt yn *Canueon Ffydd* ac eraill sydd i'w gweld ar wefan Cyngor yr Ysgolion Sul, sef gobaith.org. Mae'n awdur cyfrolau gwreiddiol megis *Llefara Arglwydd: Arweiniad i'r Ffydd Gristnogol* (1983), *Heddychiaeth Gristnogol* (1984), *Y Beibl ... ar Ferched* (2018), heb sôn am lu o addasiadau megis *Cristnogaeth go iawn* (1987), *Maplyfr y Beibl* (2003), 42, sef hanes 42 o Gristnogion enwog cyfoes (2017) a channoedd o astudiaethau yn y wasg grefyddol ar hyd y blynyddoedd. Mae ganddo golofn ddeufisol

yn y cylchgrawn cydenwadol *Cristion* ers deng mlynedd.

Mae Arfon Jones yn uchel ei barch ar draws y sbectrwm Cristnogol cyfan, o'r Eglwys yng Nghymru hyd at y mudiadau Pentecostaidd Saesneg eu hiaith. Ychydig a all ennyn ymddiriedaeth pob carfan, yn eciwmenaid, yn enwadol ac yn efengylaidd, ond llwyddodd Arfon i wneud hynny trwy ei ddiffuantrwydd, ei ysbryd brawdol a'i lafur diflino dros gael yr Ysgrhythur yn nwylo'r genhedlaeth sy'n codi. Yn ŵr gradd o Brifysgol Bangor, daeth â chlod arbennig i'w *alma mater*.

Yn frodor o Gellioedd, Llangwm, ac wedi'i fagu yn Nyffryn Clwyd, graddiodd Arfon yn BMus o Adran Gerdd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor (fel yr oedd y pryd hynny) yn 1975, gan ddilyn hynny â gradd BD, eto o Fangor, yn 1978. Bu'n gweithio am flwyddyn gyda'r diweddar Barchd T. J. Davies yn swyddog gyda'r Cyngor Unedig ar Alcohol a Chyffuriau Eraill cyn ei benodi'n Swyddog Ieuencid cyntaf Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Symudodd yn 1989 i fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol y Gynghair Efengylaidd yng Nghymru, ac yna, yn 1999, yn swyddog maes y mudiad newydd Gobaith i Gymru.

Yn ogystal â darparu deunydd addoli i'r eglwysi – emynau arloesol y 'canu newydd' yn y gyfrol *Grym Mawl*, er enghraifft – ac addasiadau o gyfrolau lliw llawn gan gwmni rhyngwladol Lion Publishing, prif fenter y mudiad oedd creu'r wefan www.beibl.net a pharatoi fersiwn cyfan o'r Beibl mewn Cymraeg cyfoes. Wedi ymarfogi'n academiaidd ar gyfer y gwaith trwy ddilyn cwrs gradd uwch yng Ngroeg y Testament Newydd a Hebraeg, ef a fu'n bennaf cyfrifol am drosi'r testun i ieithwedd sy'n gweddu i ddiwylliant ieuencid yr unfed ganrif ar hugain ac i ddysgwyr. Mae natur y fenter a'i llwyddiant diamheuol wedi'u nodi yn y crynodeb uchod.

Yn aelod, diacon a phregethwr lleig yn Eglwys Annibynnol Ebeneser, Caerdydd, mae Arfon yn briod â Rachel, ac mae ganddynt dri o blant.

O'r Swyddfa

Wrth ysgrifennu'r pwt yma ar gyfer darllenwyr *Cenn@d*, mae'n siŵr na fu'r teitl mor berthnasol ag yw heddiw. Mae hynny oherwydd fy mod yn llythrennol yn mynd o'r swyddfa. Pan ddeuthum yma yn Ionawr 2011, ychydig a feddyliais y byddai'r cyfnod am barhau cyhyd, a finnau'n meddwl ar y pryd na fuaswn yn para mwyn na phum mlynedd. Wedi dweud hynny, mae'r cyfnod wedi hedfan heibio, ac er bod ambell ddiwrnod wedi bod yn hirach na'r cyffredin, yn gyffredinol mae'r dyddiau, fel y blynyddoedd, wedi bod yn gyfnod o fwynhad.

Wrth ddweud hynny, yn sicr un o'r prif ffactorau yn y mwynhad oedd y fraint nid yn unig o gael gwasanaethu'r enwad ond cael cydwasanaethu gyda'r staff. Y mae'r gefnogaeth wedi bod yn amhrisiadwy, yn arbennig felly'r gefnogaeth weinyddol i rywun sydd o ran doniau naturiol yn weddol brin o sgiliau gweinyddol. Yn ychwanegol, mae'r gefnogaeth broffesiynol a'r cydweithio gan Swyddogion y Gymanfa wedi golygu, ar waethaf ambell gamgymeriad, fy mod wedi fy nghadw rhag pentyrru'r rheini. Mae'r Gymanfa, ar waethaf beirniadaeth o ambell gyfeiriad, yn ddyledus i ymrwymiad y staff, ymrwymiad sydd yn cael ei amlygu wrthystyried yr amser mae cynifer ohonynt wedi'i fuddsoddi yn y gwaith. Er nad oedd cytundeb a harmoni bob amser, credaf fod y berthynas wedi bod yn hapus iawn a bydd chwith gennyf golli eu cwmni.

Peth arall sydd wedi rhwyddhau'r gwaith yw cefnogaeth Llywyddion y Gymanfa a'r Cadeiryddion sydd wedi arwain yr Adrannau a'r Grwpiau. Nodaf yn arbennig Gadeiryddion y Grŵp Monitro, gan mai dyma'r grŵp sydd yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth i mi yn fy mherthynas â Swyddfa'r Gymanfa.

O ran y gwaith ei hun, mae gwasanaethu fel Ysgrifennydd y Gymanfa Gyffredinol wedi dod â'i heriau, a hynny yn arbennig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ceisio cydweithio i ddarganfod ac ailddarganfod strategaeth briodol ar gyfer enwad fel ein henwad ni yn heriol ym mhob cyfnod, ond yn arbennig o wir wrth orfod cydnabod y dirywiad a'r lleihad yr ydym yn eu hwynebu. Er bod



Meirion Morris yn derbyn anrheg o lun o waith Wynne Melville Jones gan weithwyr Adran Gweinidogaethau'r Cyfundeb mewn digwyddiad diweddar

amryw o weinidogion a blaenoriaid sydd yn cofio dyddiau pur wahanol ac yn tybio bod atebion y dyddiau hynny yn dal i fod yn berthnasol heddiw, y gwir yw na all hyn fod yn wir. Er ceisio diogelu nad yw ein neges yn newydd, bu raid gwneud ymdrechion i berswadio amryw fod angen i'r delltwaith sydd yn fframio'r neges honno newid yn barhaus. Yn y cyfan, medraf eich sicrhau na fu i mi yn bersonol nac i Swyddogion ac arweinwyr y Gymanfa lacio yn ein hymdrech yn y cyfeiriad hwn.

Wrth gloi, yr wyf yn naturiol ac o waelod calon am ddymuno'n dda i'm holnydd, gan weddio y bydd Nan yn darganfod y llawenydd sydd yn dod o wasanaethu'r Eglwys yn y rôl hon. Mae'n siŵr y bydd

darllenwyr *Cenn@d* yn ymuno â mi wrth ei chyflwyno i'r Arglwydd yn ein gweddïau.

Meirion Morris

Gol. Carem ddiolch i'r Parch. Meirion Morris am ei gyfraniadau cyson i *Cenn@d* a'i gefnogaeth gyson i'r fenter i gyhoeddi papur newyddion rhyngwadol.

Cafwyd cyfweiliad gyda Meirion wrth iddo ymdeol o fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteriaid Cymru ar raglen [Bwrw Golwg](#), 3 Gorffennaf.

Dymunwn yn dda iddo wrth iddo wynebu pennod newydd a deisyfwn fendith yr Arglwydd ar ei lwybrau i'r dyfodol.

Cydymdeimlad

Gyda thristwch derbyniwyd neges am farwolaeth y Parch Haydn Thomas, Caerdydd. Bu'n Llywydd y Gymdeithasfa yn y De ac yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, ac yr oedd ar hyn o bryd yn Llywydd Henaduriaeth Morgannwg Llundain. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'i weddw, Doreen, a'u teulu ehangach. Cynhelir ei gynhebrwng yng nghapel Salem, Treganna, ar 18 Gorffennaf. Byddwn yn cynnwys ysgrif goffa iddo yn fuan wedi hynny.

Gol.

Y Parchedig John Davies Hughes, 1931–2022

I'w deulu, roedd y Parchedig J. D. Hughes yn angor, ac i mi a chymaint o bobl roedd yn ffrind triw. Yn sicr ddigon, i'w braidd ac yn wir i bawb oedd yn ei adnabod ar hyd y blynyddoedd, roedd yn fugail gofalus. Bugeiliodd ni, yn yr ystyr ehangach, am mai dyna'n syml y'i galwyd i wneud gan ei Dduw, a dyma'r gwaith oedd wrth fodd ei galon. John oedd o i lawer, John 'Cynlas', Mr Hughes, ond i mi JD oedd o, a JD fydd o bob tro y byddaf yn ei alw i gof.

Erbyn i mi gychwyn fel Gweinidog yng ngofalaeth Llangefni a'r cylch yn y flwyddyn 2000 roedd JD wedi ymddeol yn swyddogol ers 1997. Ond nid yw rhywun yn llwyr ymddeol o'r weinidogaeth ac, yn sicr, doedd dim ymddeoliad llawn i JD i fod, a bu hynny o fantais i mi. Nid yn unig bu'n fantais oherwydd roedd o'n adnabod y bobl mor dda ac yn gallu fy nghynorthwyo ond hefyd, i hogyn ifanc wedi symud o adref ac yn byw fy hun, roedd cyfeillgarwch JD a Mairwen yn golygu cymaint. Dwi'n llwyr grediniol yn ystod fy negawd yn Llangefni a'r cylch fy mod i wedi cael mwy o fwyd yn eu cartef, Bryn y Coed, nag y cefais yn fy nhŷ fy hun!

Roedd rôl y bugail ar bwys cadernid ei ffydd yn Nuw yn rhan annatod o gyfansoddiad JD. Ym mis Medi 1960, yn dilyn ei gyfnod paratoawl fel ymgeisydd am y weinidogaeth, ordeiniwyd ef a derbyniodd alwad i'w ofalaeth gyntaf yn Nyffryn Conwy: Seion, Ysbyty Ifan; Padog a Chapel Garmon, ac ym mhen amser ychwanegwyd eglwysi Penmachno, Cwm Penmachno, Dolwyddelan a Chapel Garnedd, Pont Rufeinig i'r ofalaeth. Soniai yn llawn anwylded am ei saith mlynedd ar hugain yn Ysbyty Ifan a'r cylch. Roedd yn weithiwr ddiflino ac ymroddodd i bregethu a gwasanaethu ei braidd ag egni a ffyddlondeb diwyro, ac roedd gan ei braidd feddwl uchel iawn o Mr Hughes. Dywedodd mai un o binaclau ei weinidogaeth oedd hyfforddi criw o bobl ifanc yn ystod y cyfnod yma i gystadlu yn y cwis Beiblaidd 'Gwybod y Gair' ac roeddent yn fuddugol trwy Gymru gyfan.

Yn 1987 derbyniodd alwad i Gapeli Moreia a Lôn y Felin yn Llangefni; Cana, Rhostrehwfa; Nyth Clyd, Talwrn, a Thŷ Mawr, Capel Coch ar Ynys Môn. Wrth gwrs, ymgartrefu fu hanes JD a Mairwen yn y cylch yma yn unionsyth, ac yn fuan iawn roedd yr un mesur o barch at weinidogaeth y ddau ag oedd yn ardal Ysbyty Ifan gynt.

Roedd rôl y bugail hefyd yn amlygu ei hun yn y ffaith fod JD yn benderfynol o gefnogi popeth dyrchafol. Yn ogystal ag o fewn ei eglwysi, hefyd mewn eisteddfod a sioe, cymdeithas lenyddol a chymanfa ganu, roedd JD yn siŵr o fod yno. Roedd yn meddu ar lais tenor cyfoethog ac yn ei elfen yn canu. Byddai'r ddau ohonom yn mynd i ddiddanu aml i gymdeithas a chlwb pensynwyr. Mae llawer o bobl yn cofio gweld JD ar y stryd â phentwr o daflenni cymanfa yn ei law a hwythau yn gwybod yr eiliad honno fod JD yn siŵr o gael sêl!

Roedd rhyw fesur o awdurdod yn perthyn i'r gŵr hwn, a'r gallu a'r dewrder ganddo i ddweud pethau anodd weithiau, ond roedd pobl yn derbyn ei gyngor am ei fod o'n dod gan JD a neb arall. Mae sawl cyngor a sylw a dderbyniais ganddo yn aros yn y cof: 'Cofia urddas y swydd, Chris!' Roedd yn meddu ar ryw urddas



diymhongar, bob amser fel pin mewn papur. Roedd o'n gweld bod yna le a phwysigrwydd i bwyllgorau, ond ei bregeth fawr i mi bob amser oedd: 'Gweithia wrth dy draed!' A dyna wnaeth JD ar hyd ei weinidogaeth – gweithio'n ddiwyd wrth ei draed, a channoedd o deuluoedd ac unigolion wedi profi bendith o'r herwydd.

Rhaid sôn wrth gwrs am y sawl oedd agosaf at ei galon – ei deulu, a JD yn eu bugeilio hwythau mor ofalus ac yn cyfrif hynny yn llafur cariad. Cychwynnodd ei daith bywyd ar fferm y Cynlas ym mhentref diwylliedig Cefnddwysarn ym mro Penllyn, ac roedd ei deulu a bro ei febyd wedi dylanwadu ar JD mewn modd cadarnhaol iawn. Roedd ei frodyr a'i chwiorydd, plant y Cynlas – Owen, Enid, Tom, Gwenda a'r diweddar Gwyn ac Ela – yn bwysig iawn ganddo. Byddai'n sicrhau ei fod o'n mynd o gwmpas ei frodyr a'i chwiorydd ar hyd y blynyddoedd; anghofiodd o erioed mo'i wreiddiau. Ym mis Awst 1960 cafwyd yr uniad perffaith pan briododd JD â Mairwen, merch y Fuches Wen, Talsarnau. Roedd hi'n bartneriaeth o hynny ymlaen, y ddau fel un, yn poeni cymaint am ei gilydd ac mor ofalus o'i gilydd i'r diwedd un. Ymhen amser bendithiwyd yr aelwyd â Hywel Gwynn ac yna Osian Prys, a'r bechgyn yn golygu popeth i'r ddeuddyn. Yn sicr ddigon, dyn ei deulu oedd o erioed: yn briod, tad, tad yng nghyfraith i Bethan a Gwawr, taid balch i Llio, Ifan, Caio Lois a Beca, brawd, brawd yng nghyfraith, Yncl John, a pherthynas ffyddlon a thriw.

Yn sicr ddigon, mae'r fugeiliaeth wedi gadael ei hôl, mewn sawl man, sawl ardal, a phrawf o hyn, hwyrach, yw'r ffaith, ar ddiwedd y dydd, y peth mwyaf mae cymaint ohonom wedi'i gollu yn ymadawiad JD yw ffrind, a hwnnw yn andros o un triw!

'Portha fy ŵyn, bugeilia fy nefaid.'

C. J. Prew

O'r Seidin Tynnu tua'r Seidin

Bûm yn y seidin go iawn ers rhai blynyddoedd, a thrwy garedigrwydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru a chymorth amhrisiadwy meddygon medrus, rwyf wedi cael amser i ymlacio a chryfhau rhywfaint a chynorthwyo gydag agweddau gwahanol a newydd o'r weinidogaeth. Nid wyf yn teithio i bregethu ar y Sul bellach ond yn bodloni ar gynorthwyo yn lleol, gweinyddu ambell fedydd, priodas pan ddaw'r cyfle, a chladdu llwch os daw'r gofyn.

Mae'n anodd weithiau cysoni profi adferiad meddygol cymharol a'm diffyg parodrwydd erbyn hyn i deithio i bregethu ar y Sul. Ond trwy ras Duw a phenderfyniad personol, rwyf wedi gallu ywrthod â'r demtasiwn i ailafael yn y pethau fel cynt. Nid yw siomi pobl annwyl y Llyfr Bach yn dod yn hawdd, ond i hynny y mae wedi dod. Rwy'n parhau i ymddiried yn Nuw, heb wybod beth fydd fy rhan nac yn mynnu gwybod beth fydd fy rhawd. Ond rwy'n fodlon, heb fod gennyf atebion i'r dirgelion i gyd: rwy'n ymddiried yn Nuw; rwy'n ymddiried yn Nuw yn union fel y mae fy wyrion bach yn ymddiried yn eu taid drwy gydio'n gwbl ddiogel yn ein gilydd, law yn llaw.

Ym mhwy y byddwch chi'n ymddiried: eich cymar, eich cariad, eich cydnabod neu'r cymydog? Sut byddwch yn ymddiried ynddynt? Ai drwy fod yn agored gyda hwy, trwy rannu ambell gyfrinach neu amgylchiadau personol gyda hwy? Beth os nad ydych yn un sydd yn gallu gwneud hynny – at bwy ydych chi'n troi wedyn: eich ffydd – eich Duw?

Dros y blynyddoedd cefais y fraint o gyfarfod a dod i adnabod rhai gwyr arbennig o blith hen deulu'r ffydd. Cofiaf yn dda am ddau wedi eu magu yn ardal y chwareli, un yn chwarelwr a'r llall yn gweithio yn y C.O. – y 'County Offices'. Ond bid a fo am hynny, roedd y ddau yn ffrindiau mawr, yn ffrindiau mawr gyda'r Bod Mawr, yn gyd-ddiaconiaid ffyddlon yn eu capel. Offis Duw oedd yn bwysig iddynt. Yno y byddent yn arfer cymryd rhan, â'u dwylo wedi'u plethu ynghyd wrth gyfarch yr Un yr oeddynt yn ymddiried yn llwyr ynddo. Nid ystrydeb yw dweud fod gwrando ar eu gweddïau taer wedi gadael argraff ddofn iawn arna i fel un oedd yn chwilio am atebion ac yn ceisio deall mwy am y ffydd Gristnogol. Roedd eu gweddïau'n gampweithiau syml o barch, ac anrhydedd a diolchgarwch i'r Duw a'u cynhaliodd, a thros yr eglwys yr ymddiredwyd iddynt i'w gwarchod, mewn dyddiau o drai. Roeddynt wedi hen arfer ymddiried yn llwyr yn Nuw, ac yng

ngwerth addoliad y Sul a chenhadaeth y capel ... heb fethu, heb farnu, ac o bosib heb bryderu'n ormodol ar y pryd am y dyfodol.

Erbyn hyn, ffrindiau, rwy'n hynod falch o gael dweud y bydda i'n gallu bod yn y seidin heb boen yn y byd. Pam rwy'n dweud peth fel hyn, felly? Wel, yn y dyddiau rhyfedd yma o drai a dirywiad cyffredinol ym myd crefydd, mae'n dda iawn gen i ddweud fod yna olynnydd imi ar fin cael ei ordeinio i wasanaethu fel Gweinidog a Bugail newydd i Ofalaeth Bro Llanfairpwllgwyngyll a'r Cylch. Rydym eisoes wedi profi o'i fugeilio gofalus a'i gymeriad hynaws wrth iddo wasanaethu fel Cynorthwydd Gweinidogaethol yn ein plith ers bron i dair blynedd. Rydym yn falch iawn ohono ac yn ddiolchgar iawn iddo am ymateb yn gadarnhaol i aros gyda ni am gyfnod eto.

Ffrindiau, y mae Duw yn dal i alw pobl i'w weinidogaeth, a'n braint ni fydd cael parhau i warchod a chefnogi Mr Alun Morton Thomas yn ei alwedigaeth newydd. Y mae Duw hefyd trwy ei ras wedi ein galw ninnau yn lleol i barhau i hybu a chefnogi'r weinidogaeth draddodiadol a newydd yma yn ein mysg, a'n braint ni yw cael gwneud hynny. Y mae yntau hefyd eisoes yn gwybod beth yw ymddiried yn Nuw ac yn pwysu'n drwm ar 'Arglwydd a Pherffeithydd' ei ffydd. Rydym ninnau eisoes wedi cael medi o ffrwyth ei lafur yn ein mysg. Boed bendith Duw arno wrth iddo baratoi i'n harwain ymlaen yn enw'r Iesu. Ydy, mae'r llanw yn dal ar waith, ac nid trai mohono i gyd! Tan tro nesaf – da bo'ch.

Jim Clarke



**Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni,
Tro di ein nos yn ddydd.
Pâr inni weld holl lwybrau'r daith yn gloywi,
Dan lewyrch gras a ffydd.**

Anrhydeddu yn Nantgaredig

Bore Sul, 19 Mehefin, yng Nghapel MC Nantgaredig, cafodd Dewi Thomas (Ffynnon Ddewi), Tegfan, Capel Dewi, ei anrhydeddu gan Henaduriaeth Myrddin a Chapel Nantgaredig. Cyflwynwyd tystysgrif iddo am hanner can mlynedd o wasanaeth fel blaenor ordeiniedig. Bu Dewi yn flaenor gweithgar, ffyddlon a chydwybodol yn yr addoldy yng Nghapel Dewi cyn ymaelodi yn Nantgaredig.

Mansel Charles



Dewi Thomas yng nghwmni'r Parch. Ian Sims a'r blaenoriaid – Eleri James, Lloyd Thomas, Hywel Rees a Tony Jones

Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu



“Oherwydd dy gariad mawr, dof fi i’th dŷ, plygaf yn dy deml sanctaidd mewn parch i ti.”

Dyma ddywed y Salmydd yn Salm 4:7, a dyma sut deimlad oedd i mi fod yn sefyll ar dir sanctaidd Cefn Lea, Dolfor, ac yn addoli gyda chyfeillion o’r un anian ar gyfer y Gynhadledd Iacháu hirddisgwyliedig, a gynhaliwyd ar 23–26 Mai.

Mor braf a chyffrous oedd cyfarfod wyneb yn wyneb ar ôl dwy flynedd hir o alltudiaeth i’r rhai ohonom a oedd yn teimlo’n brin o gymdeithas Gristnogol. Roedd y lleoliad ym mrynau godidog fy Sir Drefaldwyn enedigol yn ffafriol i addoli’r Creawdwr a greodd y fath harddwch.

Yr oedd angen gorffwysfa a chael ein hailgyflenwi ar y mwyafrif ohonom. Yn y gorffennol, bu’r ysgol haf hon yn hafan o heddwch, yn lle diogel i ddod fel yr ydym a rhannu ein beichiau. Fel yr atgoffodd Sheila Wyatt ni yn y gwasanaeth agoriadol, mae Iesu’n dod atom ochr yn ochr â ni lle bynnag yr ydym, ac fel y ddau ddisgybl ar y ffordd i Emaus byddwn yn synhwyro’i bresenoldeb. Roedd y rhan fwyaf ohonom wedi blino’n lân, wedi ein llosgi’n llwyr, ac roedd angen inni dderbyn er mwyn cydbwysu lle buom yn rhoi ein hunain i eraill yn ein nerth ein hunain. Roedd angen symud i ffwrdd oddi wrth ein gweinidogaeth ein hunain i le diogel ac ailwefru’r batrïau.

Beth ydym ni’n ei losgi? Dyma gwestiwn ar un o’r sleidiau a ddangoswyd yng nghyflwyniad ein siaradwr gwadd. Ai wic y gannwyll ai olew o’r lamp? Ydym ni’n llosgi bywyd anianol fel yn y gannwyll neu olew’r Ysbryd nad yw’n llosgi allan? Yn amlwg, roedd y mwyafrif yn ddisgwyllgar y byddai Duw yn siarad â ni yn bersonol ac yn ehangach.

Y Parch. Wes Sutton, Cyfarwyddwr Sefydliad Iacháu Cristnogol Acorn (Acorn Christian Healing Foundation), oedd ein siaradwr gwadd. Roedd ganddo neges bwerus ac addas ar gyfer yr amser sydd ohoni. Yn y ddarlith gyntaf, ‘Gweinidogaethu yn nerth yr Ysbryd Glân’, dywedodd fod y sefydliad yn pwysleisio’i bod yn “hanfodol ein bod ni’n gyson yn seilio ein dealltwriaeth a’n gweithredoedd ar y Beibl. Mae arnom angen Ysbryd Duw a Gair Duw i fod yn ffyddlon i Dduw ac i fod yn ffrwythlon i Dduw”. Rydym yn derbyn gan Iesu fel y gallwn gyfrannu i eraill. Mae eraill yn dechrau teimlo rhywbeth pan fyddom wedi ein heneinio â’r Ysbryd ac yn cario presenoldeb Iesu gyda ni.

Yn yr ail ddarlith, “Gweinidogaethu yn awdurdod yr Iesu”, atgoffodd Wes ni yn gyntaf mai ffydd yw’r argyhoeddiad fod Duw yn gweithredu, a bod yn rhaid iddo weithredu’n gyson â’i gymeriad a’i Air. Pan weddiwn, nid yw ein ffydd yn y weddi, na’r canlyniad, na’r hyn yr hoffem ei weld yn digwydd; mae ein ffydd ym mherson Iesu a phwy ydyw. Mae gennym yr awdurdod, yr hawl a’r gallu i weithredu ar ei ran. Rydym ni’n cyflwyno rhodd iachâd Duw ac felly’n gallu gweddio’n syml iawn: “Rwy’n rhoi rhodd eich iachâd i chi yn enw Iesu.”

Ar ddiwedd y sesiwn cawsom ein gwahodd i gydadrodd y weddi hon o ymrwymiad: “Annwyl Dad nefol, yr wyt yn fy ngalw i rannu cariad a gallu iachusol dy Fab. Dyro imi’r doniau a’r grasusau hynny gan yr Ysbryd a moddion dy Ysbryd Glân a fydd yn fy ngalluogi i gwrdd â phobl yn eu hangen, a’u dwyn i gyflawnder bywyd yn ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.”

Yn dilyn y sgrysiâu, gwahoddodd Wes ni i weddio, gan arddodi dwylo ac eneinio ag olew os dymunem. Tystiodd llawer eu bod yn wir wedi’u bendithio, a bu tawelwch dwfn wedyn a neb ar frys i adael. I mi fy

hun, fe barhaodd yr heddwch hwnnw gydol yr holl daith adref.

Roedd cyflwyniad rhagorol Sheryl Williams ar fod yn ‘gyfeillgar i ddementia’ yn ein hatgoffa’n sydyn fod llawer o’n henoed eisoes yn byw gyda’r afiechyd hwn. Roedd ei chwis bywiog yn ffordd o ddiweddar’u’n gwybodaeth ac fe wnaeth y ddelwedd o’r silff ein helpu i adnabod proses y cyflwr. Yn yr un modd, roedd y sesiynau grŵp o astudiaeth Feiblaidd a grŵp gweddi yn ffordd wych o ddod gerbron Duw, i ddod i adnabod ein gilydd ac yn gyfle i ymgolli yn y Gair. Roedd amgylchiadau trasig y dinistr sy’n digwydd yn Wcráin yn flaenllaw yn ein gweddïau dros y byd. Fe gawsom hefyd y cyfle i gydbwysu gweddi a mwynhau’r greadigaeth ag amser rhydd i werthfawrogi cefn gwlad, cerdded, sgwrsio neu alw heibio’r Drenewydd. Balm i’r enaid oedd y cwbl.

Balm hefyd oedd dod, ar ddiwedd y gynhadledd, at fwrdd y Cymun ynghyd â’n beichiau, ein gofidiau, ein cleisiau a’n pryderon i gyd, a’u gosod o flaen gorsedd gras. Gweinyddwyd y gwasanaeth gan y Parch Nan Powell-Davies yn deimladwy iawn, a chawsom ein hatgoffa o’r geiriau yn llyfr y Datguddiad am y gobaith sydd wedi’i addo y bydd gennym nefoedd newydd a daear newydd i edrych ymlaen atynt. Dyma obaith ac anogaeth aruthrol i’r credadun. Cadwn mewn cof yn glir wobwr nefol Crist fel na fyddwn yn cael ein temtio i rhoi’r gorau iddi mewn dyddiau anodd.

Boed i ni sy’n dioddef pwysau trwm aros yn ffyddlon iddo ym mhob sefyllfa. Gadewch i ni gerdded yn ôl o Emaus yng ngeiriau emynydd J. Edward Williams:

Tydi, fu’n torri’r bara gynt,
Tyrd eto atom ni
a dwg ni oll o gylch y bwrdd
i’th lwyr adnabod di.

O'r Beibl: 7

Cyfes ar gyfer astudiaeth
bersonol neu fel grŵp

Gair o Genesis

'Oes yna obaith i'r ddynoliaeth?'

Darllen: Genesis 3:8-24

Mae gobaith yn beth tra phrin heddiw. Wrth i'r byd wynebu pandemig a rhyfel, mae gobaith yn ymddangos yn bell i ffwrdd. Hyd yn oed lle mae gobaith i'w gael, mae'n aml yn rhywbeth sentimental ac arwynebol, rhyw ddymuniad ansicr fod y byd – rhyw ddydd – yn mynd i fod yn lle gwell. Ond beth sy'n gwarantu'r fath ddymuniad?

Heddiw, mae'r ddynoliaeth yn chwilio am obaith sicr a phendant, gobaith sy'n wir a dibynadwy, gobaith sy'n obaith go iawn ac nid yn ddymuniad di-sail.

Dyma'r union fath o obaith sydd gan y Beibl i'w gynnig i ni. Er mor ddirifol yw sefyllfa'r ddynoliaeth wedi'r Cwmp, mae nodyn o obaith i'w gael yn Genesis 3. Wrth i Dduw gosbi'r sarff am dwyllo Adda ac Efa, mae'n dweud y geiriau arwyddocaol hyn: 'Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau; a bydd ef yn ysigo dy ben di, a thithau'n ysigo'i sawdl ef' (Genesis 3:15).

Wrth ddarllen penodau cyntaf Genesis, gwelwn fod y sarff yn cynrychioli rhywbeth mwy na dim ond ymlusgiad o neidr. Mae'r sarff yn cynrychioli Satan neu'r Diafol. Felly, yr hyn mae Duw'n ei ddweud yn Genesis 3:15 ydy y bydd gelyniaeth rhwng Satan a 'had' (neu 'ddisgynydd') Efa. Bydd yr elyniaeth hon yn para hyd at y diwrnod pan fydd had y wraig yn 'ysigo' (h.y. gwneud niwed) pen y sarff a'r sarff yn 'ysigo' sawdl had y wraig.

Ond pwy yw 'had y wraig'? Ar hyd y canrifoedd, mae Cristnogion wedi deall mai'r Arglwydd Iesu Grist yw'r person rhyfeddol hwn. Feyw'r un sy'n ddisgynydd



perffaith i Adda ac Efa (Luc 3:38). Fe yw 'had' y wraig (Rhufeiniaid 1:3). Ac wrth iddo farw ar groes Calvaria, dyma'r Diafol yn 'ysigo' sawdl Iesu. Hynny yw, dyma Satan yn niweidio Iesu gan dybio ei fod wedi ei drechu am byth. Ond, mor anghywir oedd yr Un Drwg! Oherwydd, wrth i Iesu gael ei hoelio ar y groes, dyma fe'n 'ysigo' pen Satan. Hynny yw, dyma fe'n torri pen Satan i ffwrdd gan orchfygu pŵer pechod a'r Diafol am byth. Er i Satan niweidio'i sawdl, sathrodd Iesu ar ei ben.

Dyma ydy gobaith sicr y Cristion. Mae'r broffwydoliaeth hon yn awr wedi'i chyflawni; mae Crist wedi marw ac mae Satan wedi'i drechu! Rydym yn gwybod yn sicr y bydd pechod, anghyfiawnder, dioddefaint a marwolaeth yn dod i ben. Mae Iesu eisoes wedi'u concro ar y groes, a phan ddaw'n ôl ar y dydd olaf bydd yn cael gwared ohonynt am byth. Felly, yn wyneb pob sefyllfa, gall y Cristion fod yn llawn gobaith sicr.

Gwilym Tudur

Trafod ac ymateb:

- Beth sy'n peri inni anobeithio?
- Ar beth allwn ni seilio ein 'gobaith'?
- Ym mha ffyrdd y gallwn ni rannu a gweithredu ar y gobaith sydd ynom (1 Pedr 3:15)?

Dathlu'r 90 oed

Bydd rhai ohonoch yn gwybod bod y Parch. Milton Jenkins, Parc y Rhath, wedi cyrraedd y garreg filltir arbennig hon yn ôl ym mis Mai. Symudodd o Aberteifi i Gaerdydd yn 1995 a gwasanaethodd fel gweinidog Eglwys Tonyfelin, Caerffili, tan yn gymharol ddiweddar.

Yno yn y festri, wedi'r oedfa ar fore Sul olaf mis Mai, cynhaliwyd digwyddiad cymdeithasol – cyfle am sgwrs fach, mwynhau paned a darn o gacen enfawr o liwiau'r enfys!

Yna, nos Sul, 19 Mehefin, cynhaliwyd oedfa o fawl ar ddiwedd wythnos yr Ŵyl Flodau. Cafwyd nifer o eitemau amrywiol, gyda Gwen Thomas ac Eirian Dafydd yn arwain a Helen Hollyman wrth yr organ.

Manteisiwyd ar y cyfle i ganu dau o emynau'r ddiweddar Rita Milton Jenkins. Yn anffodus, bu farw ryw bythefnos cyn cyrraedd ei 90 oed ym mis Tachwedd 2020.

Unwaith eto, cafwyd danteithion blasus iawn yn y festri wedi'r oedfa awr a hanner. Hyfryd nodi bod Hywel ac Eira Jones wedi cadw cwmni i Milton ar y ddau achlysur.

Roedd Rita wedi cyfansoddi a chyfieithu nifer dda o emynau ar hyd y degawdau – cyfnodau Glyn Nedd, Maesteg, Aberteifi a Chaerdydd. Gobeithio y bydd modd eu casglu ynghyd, a phwy a wŷr efallai y daw cyfle ryw ddydd i'w darllen a'u gwerthfawrogi mewn rhyw fath o ddetholiad.

Gwilym Dafydd



S4C

Sul, 10 Gorffennaf, am 7.30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Wrth i'r gyfes ddirwyn i ben, bydd Nia yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfes bresennol o *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* – o ganu grymus i straeon teimladwy o bob cwr o Gymru.

Dyma gopi o [gylchlythyr Dechrau Canu](#), [Dechrau Canmol](#) am fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

BBC radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 10 Gorffennaf, am 7:30yb a 4.30yp

Iwan Williams yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Unedig Pen Llŷn o gapel Rhydbach, Botwnnog.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 10 Gorffennaf, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal dan ofal Beti Wyn James, Caerfyrddin, Llywydd Undeb yr Annibynwyr

Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd

Mae yna dair blynedd ers i Bwyllgor Gweinyddol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd ([WCRC](#)) gyfarfod wyneb yn wyneb yn Kappel am Albis, ger Zürich yn y Swistir, a hynny yng nghysgod y man lle lladdwyd y Diwygiwr Ulrich Zwingli (1484–1531). Eleni eto, cyfarfod yn rhithiol a wnaethom. Mawr fu'r fendith o dreulio pedwar diwrnod yng nghwmni ein gilydd.

“Rydym yn dod at ein gilydd fel Pwyllgor Gweinyddol nid yn unig i ymateb i adroddiadau, ac i wneud penderfyniadau, ond i ateb y cwestiwn: beth mae'r Arglwydd yn ei ofyn gennym ni wrth i ni ymgynnull fel Cymundeb?” oedd geiriau ein Llywydd, Najla Kassab, wrth iddi agor y trafodaethau. Mae'r Cymundeb, fel pob eglwys leol, enwad ac undeb, yn gorfod gofyn cwestiynau o'r fath wrth symud ymlaen o'r pandemig.

Swyddfa Newydd

Clywsom gan Grŵp Rhaglen y Cynllun Strategol (SPPG) am lwyddiant y broses ddirnadaeth “COVID a Thu Hwnt”, a gynhaliwyd o dan nawdd y Cymundeb rhwng Rhagfyr 2020 a Thachwedd 2021. “Mae'r Cymundeb wedi sylweddoli,” meddai Rathnakara Sadananda, Cydlynnydd y Grŵp, “beth sy'n bosibl er sicrhau cynnwys pobl yn ein gwaith. Yn wir, mewn rhai ffyrdd mae'r Cymundeb yn fwy cysylltiedig ac yn fwy bywiog nag erioed yn dilyn y pandemig.” Un datblygiad cyffrous yw bod y Cymundeb, gan weithio ar y cyd â'r Eglwys Efynglaidd Waldensian ac



Pwyllgor Gweinyddol 2022 yn cyfarfod yn rhithiol

Eglwys yr Alban, am sefydlu swyddfa yn Rhufain i hybu rhannu gwybodaeth a gweithgarwch â'r Eglwys Gatholig.

Materion cyllidol

Felym mhob maes, bu ni dreulio amser yn trafod materion cyllidol. Yn ei adroddiad i'r Pwyllgor Gweinyddol, dywedodd y Trysorydd, er bod y Cymundeb wedi sicrhau gwared, fod risgiau sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Cynnwys y rhain chwyddiant cynyddol a gostyngiad mewn taliadau aelodaeth o eglwysi. Nododd fod 70% o'r aelod-eglwysi yn dal i fod heb dalu eu tâl aelodaeth am 2021. Gwn o ddarllen cylchlythyron gwahanol sefydliadau nad y Cymundeb yw'r unig gorff eciwmenaidd sy'n profi hyn. “Heddiw fe'n gelwir i sefyll yn gadarn ac i sicrhau adnoddau ariannol, sefydlogrwydd, a chynaliadwyedd yng nghanol heriau ariannol sy'n bygwth yr

holl waith eciwmenaidd,” oedd geiriau heriol ein Llywydd.

Rhanbarthau

Cafwyd trafodaethau amrywiol ar faterion amgylcheddol, bugeiliol a chenhadol. Fel arfer, adroddiadau'r rhanbarthau oedd yn ennyn y diddordeb mwyaf. Y tro hwn, adroddiadau o'r cymorth a'r gefnogaeth y mae eglwysi Ewrop – yr Almaen, Gwlad Pwyl, Rwmania, Hwngari, a'r Weriniaeth Tsiec, yn bennaf – wedi bod yn eu cynnig yng nghyd-destun sefyllfa Wcráin fyndodd ein sylw. Cawsom adroddiad gan y Llywydd o'i hymweliad â rhai o eglwysi Wcráin: mae'r sefyllfa yn enbyd, yn llawer gwaeth na'r hyn a welwn ar y cyfryngau, meddai: y lladd diamcan; treisio merched a bechgyn, a phlant; a rheibio cartrefi wedi eu gadael gan Wcrainiaid yn ffoi.

Ymwybyddiaeth Fyd-eang

Ydy'r Cymundeb o bwys i anghydfurfwrwyr Cymru? Heb amheuaeth! Mae'n hollbwysig ein bod yn cael ein cynrychioli, ein gweld a'n clywed yn y cyrff cydenwadol hyn. Trwy drafodaeth, dadl a sgwrs, dyfnheir ffydd ac ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd yn enw ein Harglwydd ledled y byd yr ydym yn gyd-ddinasyddion ohono. Mawr yw fy nyled i Undeb yr Annibynwyr am y fraint o gael bod yn rhan o'r Cymundeb; rwy'n gobeithio'n fawr fod fy nghyfraniadau i'r trafodaethau yn sicrhau bod ein llais a'n cenhadaeth yng Nghymru yn cael eu clywed. Mae'n bwysig eu bod, gan fod gennym brofiadau unigryw i'w cynnig i'n cyd-Gristnogion.



Aelodau'r Pwyllgor Gweinyddol yn 2019. Cyfarfu yn Kappel am Albis, y Swistir, ond y llun yn dilyn oedfa'r Sul yn eglwys Brotestannaidd Grossmünster Zurich, sydd â chysylltiad â'r Diwygiwr [Huldrych Zwingli](#) ac yn un o'r safleoedd pwysigaf yn hanes Diwygiad y Swistir-Almaen

Hefin Jones

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Dos a gwna dithau

Emyn 382: 'Grist bendigedig'

Darlleniad – Salm 25:1–10

Gweddi

Geidwad sanctaidd, ynot ti yr ydym yn ymddiried. Gweddiwn, fel y Salmydd gynt, am gael ein cadw rhag cael ein cywilyddio gan ein gweithredoedd, ein hunanoldeb, a'n gwrthryfel yn dy erbyn, na chwaith gael ein siomi yn yr eilunod niferus yr ydym mor barod i ymddiried ynddynt. Arwain ni mewn gostyngeddwydd at lwybrau dyrchafol dy ras, at lwybrau sy'n llawn cariad a gwirionedd yn Iesu Grist, Amen.

Darlleniad – Luc 10:25–37

Mae'n ymddangos fel rhywbeth cwbl amlwg nad oes angen i unrhyw un ei ddweud. Ond mae'n werth atgoffa ein hunain o'r egwyddor syml yma: *ystyr testun yw'r hyn a fwriadodd yr awdur ei gyfleu*. Oni fyddai hyn yn wir, byddai cyfieithu llenyddiaeth o un iaith i'r llall yn dasg amhosibl.

Pan ddygwn yr egwyddor hon at yr Ysgrythur, deallwn felly ei fod yn ofynnol i ninnau geisio dirnad beth, tybed, fyddai darllenwyr cyntaf Luc, neu wrandawyr cyntaf y ddameg wedi'i ddeall pan glywsant y geiriau am y tro cyntaf un?

Pan drown yn benodol at y Samariad Trugarog, rhaid cofio, yn y lle cyntaf, mai *dameg* ac nid *alegori* yw'r adnodau. Byddai trin yr adnodau fel alegori'n golygu bod yn rhaid i ni chwilio am arwyddocâd ym mhob manylyn. Mewn dameg ar y llaw arall, chwilio am un ergyd yn bennaf a wnawn.

Aeth Awstin Sant i ddehongliadau creadigol iawn wrth iddo gynnig esboniad alegoriol o'n darlleniad:

'Aeth *gŵr* o Jerwsalem i Jericho. *Adda* a olygir gan hyn. *Jerwsalem* yw'r ddinas nefol o heddwch y syrthiodd *Adda* o'i gwynfyd. Mae *Jericho* yn cynrychioli'r lleuad, sydd yn ei thro yn arwyddo ein meidroldeb gan ei bod yn cael ei geni, yn tyfu i'w llawnder, cyn cilio a marw. Y *lladron* yw'r diafol a'i angylion. *Dyma'r* rhai a ddygodd ei ddillad oddi arno, sef o'r bywyd tragwyddol a feddai; *curasant* ef drwy ei berswadio i bechu a'i adael yn hanner marw; oherwydd i'r graddau y mae gan ddyn y gallu i ddeall ac adnabod Duw y mae'n fyw, ond i'r graddau y treuliodd ei fywyd wedi

ei ormesu gan bechod, y mae'n farw; y mae felly yn *hanner marw*. Yr *offeiriad a'r Lefiad* yw'r rhai a'i gwelsant [yn hanner marw] ond a aeth heibio iddo, ac fe gynrychiolant hwythau offeiriadaeth a gweinidogaeth yr Hen Destament na allem elwa arnynt er mwyn ein hiachawdwriaeth.

'Ystyr *'Samariad'* yw 'gwarcheidiwr', ac felly yr Arglwydd ei hun yw'r un y mae'r enw'n cyfeirio ato. *Rhwymo ei glwyfau* yw atalfa ar ein pechod. Yr *olew* yw'r cysur a ddaw oherwydd gobaith; *gwin* yw'r anogaeth i weithio gydag ysbryd taer. Yr *anifail* yw'r cnawd a wisgodd [yr Arglwydd] pan ymostyngodd i ddod i'n plith. Golyga cael ein *gosod ar yr anifail* gred yn ymgawdoliad Crist. Y *llety* yw'r Eglwys, lle gall teithwyr ar eu ffordd i'r wlad nefol gael eu hadnewyddu ar eu pererindod. *Trannoeth* yw atgyfodiad yr Arglwydd. Y *ddwy geiniog* yw'r ddwy egwyddor o gariad, neu'r gobaith yn y bywyd presennol, o'r hyn sydd eto i ddod. *Ceidwad y llety* yw'r Apostol (Paul). Y *taliad* yw naill ai'r cyngor i fyw yn ddibriod, neu i weithio â'i ddwylo ei hun rhag iddo fod yn faich ar unrhyw un o'r brodyr gwannaf pan oedd yr efengyl yn newydd – er ei bod yn gyfreithlon iddo fyw ar draul yr efengyl.' (Addasiad o C. H. Dodd, *Parables of the Kingdom*)

Nid oes ofod gennym i drafod y llu o ddehongliadau creadigol ac amrywiol a gynigiwyd gan esbonwyr. Er enghraifft, ai dweud y mae'r ddameg fod Iesu'n fwy derbyniol a chroesawgar o Samariaid na'i gyfoedion Iddewig? Ai cyfeirio y mae at bwysigrwydd neu gyfraniad y bobl sydd ar y cyrion? Neu ai dameg ydyw am y modd y mae pobl yn ymateb i bobl eraill sydd ar yr ymylon, tuag at bobl sydd wedi eu trawmateiddio, neu eu cam-drin, sydd heb na lloches na chysgod?

Nid dibwys yw ystyriaethau neu ddehongliadau o'r fath. Ond, ai at hyn yr oedd Iesu'n cyfeirio? Mor rhwydd yw gogrynu mintys a theim, a methu gweld mai ergyd gwbl syml a hollol ymarferol sydd gan Iesu: 'Dos a gwna dithau yn yr un modd.'

Mae'r dechneg storïol sydd yn y ddameg yn gyfarwydd i ni hyd heddiw: 'Yr oedd rhyw ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jericho, a syrthiodd i blith lladron.' Yno, yn ei glwyfau, gwelodd y Lefiad a'r offeiriad

ef yn gorwedd yn ei drallod, gan fynd â'i adael lle'r ydoedd. (Cynrychiolwyr, gyda llaw, o bleidiau na fyddai gan Ysgrifenyddion y Gyfraith lawer o barch iddynt oedd y Lefiaid a'r offeiriad.)

O droi at yr adnodau, gwelwn o'u darllen yn ofalus fod y ddameg ar ei hyd yn troi o gwmpas cyfres o gwestiynau oedd yn dangos gwybodaeth a diffyg dealltwriaeth y rhai oedd yn ymwneud ag Iesu.

Gwyddai'r athro fod yr ateb i'w ymholiad, 'Athro, beth a wna i etifeddu bywyd tragwyddol?' i'w canfod yn Deuteronomium 6:5 a Lefiticus 19:18. Ond yr hyn a'i blinai oedd effaith ymarferol credu hynny. 'Pwy yw fy nghymydog?' Ymhle yn ymarferol yr oedd tynnu'r llinell?

Tosturio fel Duw

Ystyriwn am foment y defnydd mae Luc yn ei wneud o'r gair 'tosturiodd'. Ym mhob defnydd a wna Luc o'r gair (heblaw am un achlysur lle caiff tosturi ei atal), cyfeirio y mae at 'dosturi' sy'n nodweddiadol o Dduw. Duw ei hun yw'r un sy'n trugarhau ac sy'n batrwm o drugaredd. Efallai fod gan yr offeiriad 'reswm crefyddol digonol' yn ei dyb ef dros beidio ag ymostwng i helpu. Diau fod gan y Lefiad eglurhad ar ei benderfyniad. Ond bid a fo am hynny, canlyniad eu penderfyniad oedd na ddangoswyd trugaredd i'r anghenus yn awr ei drallod.

Offeiriad, Lefiad, Samariad, a'r truenus

Weithiau, ni yw'r un anghenus yn y ffos sy'n disgwyl am drugaredd Duw ac yn dyheu am drugaredd a gofal. Weithiau, ni yw'r Lefiad a'r offeiriad sy'n cau ein llygaid, sydd am amddiffyn ein hunain rhag niwed ac sy'n methu dangos trugaredd tebyg i'r Arglwydd, trugaredd fyddai'n deilwng o'n proffes. Weithiau, fe allwn gael ein cyffwrdd gan angen rhywun arall a bod yn 'Samariad' gofalus iddynt.

Gweithredodd Duw heb i na hil, na gwlad, nac iaith, na statws cymdeithasol, addysgol neu ariannol, gyfyngu ei drugaredd.

'Dos a gwna dithau' yw'r her i ninnau o hyd. Tybed beth mae hynny'n ei olygu i ni heddiw?

Emyn 816: 'Cofia'r newynog'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru